



## Trafod Llythyr Elisabeth Siarad am Gynnwys Llyfr

**Y BANC** Uwch

**Trafod Llythyr Elisabeth**  
Siarad am Gynnwys Llyfr

**Nodyn i'r Tiwtor**  
Hyd: 2.5 - 3 awr  
Bydd angen llungopïo'r camau ar gyfer pawb yn y dosbarth. Maent i gyd yn A4 i wneud pethau'n haws. Bydd angen torri cardiau ar gyfer yr ymarfer llafar.  
Amser Paratoi: 15 munud ac amser ymglyfarwyddo.

**Cam 1 - Cyn Dechrau**

Amaethyddol	Gwaharddwyd*	* Yn cael sylw yn yr Ymarfer Cadarnhau (Cam 2)
Anawsterau	Gweithgareddau	
Aruthrol	Gwyddeleg	
Atyniadau	Tafodiaith	
Dedfrydwyd*	Trychineb	
Dianc â dirwy	Ymgais	
Drwgdeimlad	Ynys Werdd	

acfn.

Cam 1 - Cyn Dechrau (Geirfa a Phatrymau)

**Y BANC** Uwch

**Cam 2 - Ymarfer Cadarnhau**  
Trafod Ffuriau Amheronol yn y Newyddion

acfn.

Gwaharddwyd  
Cythral  
Cynhadwr  
Deall  
Agnwyl  
Cynhadwyd  
Ardwyl  
Boddydd  
Dywydr  
Cafwyd  
Hosod  
Cynhadwyd  
Deffrydwyd  
Dedfrydwyd  
Hoswyd

Cam 2 - Ymarfer Cadarnhau (Trafod Ffuriau Amheronol yn y Newyddion)

**Y BANC** Uwch

**Cam 3 - Gwrando a Darllen a Deall**

Grid 1  
Grid 2  
Grid 3

Cam 3 - Gwrando a Darllen a Deall (Trafod Llythyr Elisabeth)

**Y BANC** Uwch

**Cam 4 - Yn y Drefn Iawn**

Grid Trafod y Cynnwys

Tali y llyfr	
Awdur y llyfr	
Pa beth o llyfr ydy hwn?	
Bath ydy cynnwys cyffwrddi y llyfr?	
Bath sy'n awdwrddio am y llyfr?	
Osai rhywbeth arall am y llyfr yn sefyll allan?	

Cam 4 - Yn y Drefn Iawn (Ad-drefu Stribedi)

**Y BANC** Uwch

**Cam 5 - Ymarfer Llafar (a)**  
Siarad am Gynnwys Llyfr

acfn.

Grid Trafod y Cynnwys

Tali y llyfr	
Awdur y llyfr	
Pa beth o llyfr ydy hwn?	
Bath ydy cynnwys cyffwrddi y llyfr?	
Bath sy'n awdwrddio am y llyfr?	
Osai rhywbeth arall am y llyfr yn sefyll allan?	

Cam 5 - Ymarfer Llafar (Trafod Cynnwys Llyfr a Datblygu Sgwrs am Deithio)

**Y BANC**

Darn Sain 1 (Safonol)  
Darn Sain 2 (Naturiol)

Darn Sain 1 (Safonol)  
Darn Sain 2 (Naturiol)

## Nodyn i'r Tiwtor

Hyd: 2.5 - 3 awr

Bydd angen llungopïo'r camau ar gyfer pawb yn y dosbarth. Maent i gyd yn A4 i wneud pethau'n haws. Bydd angen torri cardiau ar gyfer yr ymarfer llafar.

Amser Paratoi: 15 munud ac amser ymglyfarwyddo.

## Cam 1 - Cyn Dechrau

Amaethyddol	Gwaharddwyd *	* Yn cael sylw yn yr Ymarfer Cadarnhau (Cam 2)
Anawsterau	Gweithgareddau	
Aruthrol	Gwyddeleg	
Atyniadau	Tafodiaith	
Dedfrydwyd *	Trychineb	
Dianc â dirwy	Ymgais	
Drwgdeimlad	Ynys Werdd	

acfn.



## Cam 2 - Ymarfer Cadarnhau Trafod Ffuriau Amhersonol yn y Newyddion

Gyda'ch partner, chwiliwch am eiriau o'r rhestr ar y dde i gwblhau'r brawddegau ar y chwith. Dim ond unwaith y defnyddir pob gair.



\_\_\_\_\_ y ffatri gan y Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig.

\_\_\_\_\_ hyd i bum cilo o heroin mewn canolfan yn Llanelli neithiwr.

\_\_\_\_\_ y cwbl mewn llythyr at olygydd y Western Mail ddoe.

\_\_\_\_\_ y bydd Huw Jones yn gwneud datganiad yn y bore.

\_\_\_\_\_ fod cyfarwyddwr y cwmni yn sâl iawn.

\_\_\_\_\_ i Edmunds ymosod ar ei wraig y tu allan i'r dafarn hon echnos.

Yn ôl ym mis Mai \_\_\_\_\_ i Hughes lofruddio ei wraig yn yr ardd.

\_\_\_\_\_ strategaeth newydd gan Fwrdd Loteri Cymru yfory.

Ddoe \_\_\_\_\_ adroddiad manwl gan Gomisiwn yr Archwilwyr.

\_\_\_\_\_ dawns i godi arian ar gyfer Cymdeithas y Deillion yfory.

Ddoe, \_\_\_\_\_ seremoni arbennig i agor adeilad Senedd newydd Cymru.

\_\_\_\_\_ y dyn i chwe mis yn y carchar.

\_\_\_\_\_ â'r plant i gyd i'r ysbyty ar ôl y ddamwain.

Ar ôl gyrru ac yfed, \_\_\_\_\_ y gyrrwr am ddwy flynedd.

\_\_\_\_\_ dau o blant mewn damwain ofnadwy ar Lyn y Griall ddoe.

**Gwaharddwyd**

**Cynhelir**

**Cyhoeddwr**

**Deöllir**

**Agorwyd**

**Cynhaliwyd**

**Aethpwyd**

**Boddwyd**

**Dywedir**

**Cafwyd**

**Honnir**

**Cyhoeddwyd**

**Dedfrydwyd**

**Datgelwyd**

**Honnwyd**



## Cam 3 - Gwrando a Darllen a Deall

Os oes ffeil sain i gyd-fynd â'r darn hwn darllenwch trwy'r cwestiynau yng Ngrid 1 gan sicrhau bod popeth yn glir. Wedyn gwrandewch ar y darn a cheisio ateb y cwestiynau gyda'ch partner. Cewch wrando mwy nag unwaith. Ymlaen wedyn at yr ail grid a'r trydydd. Cewch wedyn ddarllen sgript y darn.

Os nad oes ffeil sain, ewch yn syth at y darn darllen. Darllenwch trwy'r cwestiynau yng Ngrid 1 gan sicrhau bod popeth yn glir. Wedyn darllenwch y darn gyda'ch partner a cheisio ateb y cwestiynau. Does dim eisiau deall popeth. Ymlaen wedyn at yr ail grid a'r trydydd. Cewch wedyn ddarllen trwy'r sgript yn fanwl.

### Grid 1

Ble mae Phyllis yn byw?

.....

Beth mae'r teulu yno i gyd yn ei wneud?

.....

Pryd mae Elisabeth yn mynd i gysylltu eto?

.....

### Grid 2

Pa fath o lyfr dylai Phyllis ei ysgrifennu?

.....

Ble collodd Huw ei gwch?

.....

Pryd digwyddodd damwain Neville?

.....

### Grid 3

Sut berthynas sydd rhwng Huw a'i wraig?

.....

Pwy oedd yn amddiffyn Neville yn y llys?

.....

Beth ddigwyddodd i Neville yn y llys?

.....



## Sgript y Darn Gwrando/Darllen Llythyr Elisabeth



24 Perth y Paun,

Llangyfeiliog.

24 Hydref

Annwyl Phyllis,



Sut mae pawb yn yr Ynys Werdd? Roeddwn yn falch iawn o glywed bod y teulu i gyd yn dysgu Gwyddeleg erbyn hyn. Roedd hefyd yn braf i ni glywed am yr holl atyniadau a'r gweithgareddau lleol. Efallai y dylech chi ysgrifennu llyfr ar gyfer ymwelwyr!

Newyddion drwg sydd gen i yn anffodus. Ddechrau'r mis collodd Huw ei gwch hwylio oddi ar arfordir Ynys Môn. Ei fai e oedd y cwbl! Roedd ar gymaint o frys i fynd allan i bysgota, anghofiodd ffonio'r ganolfan hwylio i gael gwybodaeth am y tywydd. Yn sydyn, cododd storm aruthrol ac roedd yn lwcus i ddianc gyda'i fywyd. Trychineb! Roedd y cwch wedi costio miloedd iddo. Dyna ddiwedd ar ei freuddwyd am y tro. Mae'r sefyllfa wedi achosi tipyn o ddrwgdeimlad rhwng Huw a'i wraig, Mari.

Mae newyddion drwg am Neville hefyd. Ydych chi'n cofio i mi sôn am y ddamwain fis Tachwedd diwethaf? Wel, yn anffodus, nid damwain oedd hi. Roedd Neville wedi bod yn yfed yn drwm pan aeth ei gar oddi ar y ffordd a gorffen i fyny yng nghanol tir amaethyddol gorau Ynys Môn. Ddydd lau, penderfynodd ei fod am ei amddiffyn ei hun yn y llys – ond er gwaethaf ei dafodiaith lân, methodd yn ei ymgais i ddianc â dirwy. Dedfrydwyd Neville i dri mis yn y carchar a gwaharddwyd y dyn rhag gyrru am ddwy flynedd. Mae hyn yn mynd i achosi anawsterau mawr i'r teulu.

Ysgrifenna i eto yn fuan – pan fydd gen i newyddion gwell, gobeithio!

*Lis*

Elisabeth

*Hawlfraint yr Awdur*



## Cam 4 - Yn y Drefn Iawn

Bydd cyfres o sribedi - wedi'u cymysgu - ar gael ar gyfer pob grŵp o 3 - 5. Trwy drafod, rhowch y sribedi yn y drefn iawn.

24 Perth y Paun, Llangyfeiliog.

24 Hydref

Annwyl Phyllis,

Sut mae pawb yn yr Ynys Werdd?

Roeddwn yn falch iawn o glywed bod y teulu i gyd yn dysgu Gwyddeleg erbyn hyn. Roedd hefyd yn braf i ni glywed am yr holl atyniadau a'r gweithgareddau lleol.

Efallai y dylech chi ysgrifennu llyfr ar gyfer ymwelwyr!

Newyddion drwg sydd gen i yn anffodus. Ddechrau'r mis collodd Huw ei gwch hwylio oddi ar arfordir Ynys Môn. Ei fai e oedd y cwbl!

Roedd ar gymaint o frys i fynd allan i bysgota, anghofiodd ffonio'r ganolfan hwylio i gael gwybodaeth am y tywydd. Yn sydyn, cododd storm aruthrol ac roedd yn lwcus i ddianc gyda'i fywyd.

Trychineb! Roedd y cwch wedi costio miloedd iddo. Dyna ddiwedd ar ei freuddwyd am y tro.

Mae'r sefyllfa wedi achosi tipyn o ddrwgdeimlad rhwng Huw a'i wraig, Mari.

Mae newyddion drwg am Neville hefyd. Ydych chi'n cofio i mi sôn am y ddamwain fis Tachwedd diwethaf?

Wel, yn anffodus, nid damwain oedd hi. Roedd Neville wedi bod yn yfed yn drwm pan aeth ei gar oddi ar y ffordd a gorffen i fyny yng nghanol tir amaethyddol gorau Ynys Môn.

Ddydd lau, penderfynodd ei fod am ei amddiffyn ei hun yn y llys – ond er gwaethaf ei dafodiaith lân, method yn ei ymgais i ddianc â dirwy.

Dedfrydwyd Neville i dri mis yn y carchar a gwaharddwyd y dyn rhag gyrru am ddwy flynedd. Mae hyn yn mynd i achosi anawsterau mawr i'r teulu.

Ysgrifenna i eto yn fuan – pan fydd gen i newyddion gwell, gobeithio!

Elizabeth



## Cam 5 - Ymarfer Llafar (a) Siarad am Gynnwys Llyfr



Ceir yma ddau adolygiad byr o lyfrau Cymraeg. Dylid ymrannu'n barau. Dylai hanner y parau gyd-ddarllen Adolygiad 1 a dylai'r hanner arall gyd-ddarllen Adolygiad 2. Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall popeth. Wedyn, ewch i siarad â rhywun sydd wedi darllen adolygiad gwahanol i chi a defnyddiwch y grid trafod i gynnal sgwrs.



### Grid Trafod y Cynnwys

Teitl y llyfr	
Awdur y llyfr	
Pa fath o lyfr ydy hwn?	
Beth ydy cynnwys cyffredinol y llyfr?	
Beth sy'n arbennig am y llyfr?	
Oes rhywbeth arall am y llyfr yn sefyll allan?	



## Ymarfer Llafar (a) Siarad am Gynnwys Llyfr

Cofiwch ddatblygu pob  
sgwrs.  
Byddwch yn barod i ofyn am fwy  
o wybodaeth a'i chynnig.



### Adolygiad 1

**Teitl y Llyfr:** Dan Leuad Llŷn

**Enw'r Awdur:** Penri Jones

**Math:** Nofel Antur



**Cynnwys/Stori:** Lleolir y nofel hon ym Mhen Llŷn wledig ger y môr. Adroddir ynddi hanes criw o ffrindiau ifainc sydd am i'w barbeciw glan môr ddiwedd tymor barhau i berfeddion nos. Wrth bendroni beth i'w wneud mae llygaid un yn disgyn ar long hwylio grand allan yn y bae ac yn blycio hwylio "ar hyd y llwybr aur draw am Enlli". Wrth i'r naill herio'r llall mae'r blys yn troi'n realaeth ond mae "gales up to force 8 in westerly areas" yn dryllio'u breuddwydion gan achosi cryn niwed i'r llong hwylio. Mae'r drychineb hon yn gychwyn i gyfres o ddigwyddiadau sy'n dwysau'r drwgdeimlad sydd eisoes yn bodoli rhwng trigolion yr ardal a chymeriad dwad a'i deulu a ddaeth dros y ffin gyda'r bwriad o ddefnyddio'i gyfoeth i reoli'r ardal a thro'i'r tir amaethyddol yn feysydd carafannau. Adroddir yr hanes yn nhafodiaith yr awdur sy'n frodor o'r ardal. Trwy naturioldeb ei dafodiaith lân creir darlun byw o Gymry ifainc, cefn gwlad a'r anawsterau sy'n eu hwynebu.

Rhan o Adolygiad Eluned Jones

### Adolygiad 2

**Teitl y Llyfr:** Iwerddon

**Enw'r Awdur:** Clive James

**Math:** Llyfr Taith



**Cynnwys/Stori:** Llwylyfr teithio Iwerddon i'r Cymry Cymraeg yw'r llyfr hwn. Ynddo, mae popeth y dylai rhywun ei wybod am yr Ynys Werdd er mwyn hwyluso ei ymweliad. Ar ddechrau'r llyfr ceir rhestr o enwau llefydd yn Iwerddon yn Saesneg a Gwyddeleg. Dangosir hefyd sut i'w hynganu yn y Wyddeleg. Rhoddir braslun o hanes Iwerddon i ni cyn esbonio sut le yw Iwerddon heddiw (neu yn 1993 – dyna pryd ysgrifennwyd y llyfr). Sonnir am y Wyddeleg a'i dirywiad ynghyd â'r gwahanol grefyddau o fewn Iwerddon. Mae'r llyfr yn rhestru sawl dull o gyrraedd Iwerddon a hefyd sut i deithio o amgylch y wlad – dulliau megis hwylio, hedfan, ar fws, ar drên neu ar droed. Ceir disgrifiadau manwl o ranbarthau Iwerddon yn osgystal â lluniau, mapiau a deiagramau. Yn y disgrifiadau rhoddir hanes y trefi a'u prif atyniadau, er enghraifft, y siopau, y theatrau, cestyll ac eglwysi. Mae cyngor yn y llyfr am weithgareddau arbennig sydd i'w gwneud yn Iwerddon. Mae teithiau pleser, beicio, golff a physgota, i enwi ond ychydig.

Rhan o Adolygiad Betsan Wyn Morris



## Ymarfer Llafar (b) Datblygu Trafodaeth am Deithio

Gyda'ch partner, defnyddiwch yr holiadur hwn i ddatblygu sgwrs. Ar ddiwedd yr ymarfer, dylid rhannu'r wybodaeth â gweddill y dosbarth trwy siarad am brofiadau'ch partner.

**Cofiwch ddatblygu pob sgwrs. Byddwch yn barod i ofyn am fwy o wybodaeth a'i chynnig.**

1. I ble yng Nghymru rydych wedi teithio? Pam? Gwyliau? Eisteddfod? Ymweld â'r teulu?

.....  
.....

2. Pa mor gyfarwydd â Chymru oeddech chi cyn i chi ddechrau dysgu Cymraeg? Gawsoch chi eich dysgu am Gymru yn yr ysgol?

.....  
.....

3. Ydych chi wedi treulio amser o gwbl yn Lloegr yr Alban neu Iwerddon? Ble? Pryd? Sut brofiad oedd e?

.....  
.....

4. Pe taech chi'n ysgrifennu llyfr taith am Gymru, beth hoffech chi ei gynnwys? A fyddai fformat llyfr Clive James yn gweithio? Pam? Pam lai?

.....  
.....

5. Ble bydd eich gwyliau nesaf? Yng Nghymru? Pam? Pam lai?

.....  
.....